

Beibl i Blant yn cyflwyno



Un o arweinwyr y Deml yn dod at Iesu



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus
addaswyd gan: M. Maillot; Sarah S.

Alastair Paterson

Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada


©2020 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Pan aeth Iesu i'r Deml un diwrnod,
gwelodd fod pobl yno yn amharchu tŷ
Duw. Roedden nhw'n gwerthu anifeiliaid
ac yn cyfnewid arian yng nghanol
y Deml!




Ar ôl gwneud chwip allan o reffynnau, gyrrodd Iesu y gwerthwyr allan o'r Deml. "Ewch â'r rhain allan," gorchmynnodd. "Stopiwch droi tŷ fy Nhad yn farchnad." Roedd Iesu'n caru tŷ ei Dad.




3

Gofynnodd yr arweinwyr i'r Iesu am arwydd er mwyn dangos fod ganddo'r hawl i glirio'r Deml.




4

"Dinistriwch y Deml hon ac fe wna i ei hadeiladu hi eto mewn tri diwrnod," atebodd Iesu. Amhosib! Roedden nhw wedi bod yn adeiladu'r Deml ers pedwar-deg chwech o flynyddoedd.




5

Ond roedd Iesu'n siarad am ei gorff. Er bod Iesu'n mynd i farw ar y groes, roedd e'n gwybod y byddai Duw yn ei atgyfodi ar ôl tri diwrnod.



6

Wedi iddi nosi, daeth un o arweinwyr y deml at Iesu. Roedd y gwrthiau wedi profi iddo fod Iesu wedi ei anfon gan Dduw. Daeth Nicodemus at Iesu er mwyn dysgu mwy am Dduw.



7

Dywedodd Iesu wrth Nicodemus fod yn rhaid i bobl gael eu geni eto cyn cael mynd i mewn i Deyrnas Dduw. Doedd Nicodemus ddim yn deall. Sut allai oedolyn fod yn fabi eto? A beth bynnag, roedd e'n ddyn crefyddol. Oedd hynny ddim yn ddigon?




8



"Mae'r hyn sy'n dod o'r ysbryd yn ysbryd," eglurodd Iesu. "Mae Ysbryd Duw fel y gwynt- rydych chi'n gweld beth mae'r gwynt yn ei wneud, ond allwch chi ddim gweld y gwynt ei hun."


9



Atgoffodd Iesu Nicodemus fel roedd pobl Israel wedi cwyno wrth Moses amser maith yn ôl. Roedden nhw'n dweud, "Does gennon ni ddim bwyd, dim dŵr, ac mae'n gas gennon ni'r bara mae Duw yn ei roi i ni."


10

Fe wnaeth drygioni'r bobl wneud Duw yn flin. Anfonodd nadroedd gwenwynig atyn nhw. Fe wnaeth y nadroedd frathu'r bobl ac fe wnaeth llawer ohony'n farw.




11

Fe wnaeth y bobl grefu ar Moses, "Rydyn ni wedi pechu. Pŵs gweddïa y bydd yr ARLWYDD yn cymryd y nadroedd yma i ffwrdd." Felly fe wnaeth Moses weddio drostyn nhw. Ond gwrthododd Duw wneud i'r nadroedd fynd i ffwrdd.




12

Dywedodd Iesu wrth Nicodemus y byddai Mab y Dyn yn cael ei godi'n uchel fel y neidr bres. Roedd Iesu'n siarad am y groes lle byddai'n marw.



13

Dywedodd Iesu wrth Nicodemus y byddai Mab y Dyn yn cael ei godi'n uchel fel y neidr bres. Roedd Iesu'n siarad am y groes lle byddai'n marw.



14



Dyweddodd Iesu,


"Mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."

15




Mae hyn yn golygu bod pwy bynnag sy'n credu yn Iesu yn dod yn rhan o deulu Duw.

16



Efallai na ddaeth Nicodemus yn ddisgybl i Iesu y noson honno, ond blynyddoedd yn ddiweddarach, dangosodd Nicodemus ei fod yn caru ac yn credu yn Iesu - fe wnaeth e gynorthwyo i gladdu Mab Duw wedi'r croeshoeliad.

17



Ar ôl hyn, fe wnaeth Iesu a'i ddisgyblion gychwyn ar daith i'r Gogledd. Roedd pobl eraill angen clywed am Deyrnas Dduw, a chael cyfle i gredu yn Iesu o Nasareth, Mab Duw.

18

Un o arweinwyr y Deml yn dod at Iesu


Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ioan 2-3, Numeri 21

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

19



41



60 20

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16